



Ysgol Pentreuchaf

88. Polisi Gofal Bugeiliol

Nod

Galluogi'r plant i deimlo'n hapus, diogel a hyderus ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Amcanion

Canllawiau

1. Athrawon, staff ategol ac unrhyw oedolion eraill i ymdrîn â gofal ein plant mewn ffordd bositif, gan atgyfnerthu athroniaeth ac ethos yr ysgol, a dilyn polisi ymddygiad yr ysgol.
2. Gofyn i rieni i gysylltu gyda'r athrawes ddosbarth neu'r pennaeth os oes ganddynt unrhyw bryderon er mwyn i ni fedru datrys unrhyw broblemau ar fyrder.
3. Annog rhieni i ddweud wrthym am unrhyw broblemau teuluol, salwch a.y.y.b. er mwyn i ni fedru cynnal y plentyn a sicrhau ei les personol. Wrth gwrs, gellir gwneud hyn yn hollol gyfrinachol pan fydd hyn yn angenrheidiol neu'n ddymunol.
4. Ceisio cael y plant i siarad yn rhydd ac agored hefo unrhyw aelod o staff os oes ganddynt bryderon neu broblemau o unrhyw fath, o ran gwaith, neu ar lefel personol. Bydd y staff yn ymateb i'r plant trwy ddangos cydymdeimlad a chonsyrn, gan drafod gyda'r athrawes ddosbarth neu'r pennaeth os oes angen ymyrraeth pellach. Bydd yn bosibl iddynt hwy gynnig cyngor, cynhaliath, cyfarwyddyd, a chysur. Gallwn hefyd gynnig gysylltu gyda'r rheini a.y.y.b.
5. Rydym, fel ysgol, wedi sefydlu a chynnal perthynas dda gyda'r asiantaethau allanol sy'n ymwneud â gofal plant, gan gynnwys yr Adran Iechyd, Gwasanaethau cymdeithasol a'r Heddlu. Bydd PC Dewi Owen yn dod i drafod diogelwch yn gyffredinol, diogelwch y ffyrdd, ymddygiad a chyffuriau gyda'r plant a'r nyrs yn trafod materion iechyd.
6. Caiff archwiliadau iechyd eu cynnal yn rheolaidd – yn y Dosbarth Derbyn, archwiliadau dannedd, clyw a golwg.

Casgliad

Ceisiwn ffurfio perthynas cyfeillgar, ddiogel gyda'r plant, gan sylweddoli fod gan blant ac oedolion wahanol bersonoliaethau a ffyrdd o weld y byd. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar hunaniaeth bob plentyn, a chaiff y plant eu trîn fel unigolion, gan eu hannog hwy i fod yn bositif a chynhaliol yn eu hymdrîn â phobl sy'n ymddangos yn 'wahanol' oherwydd anabledd, neu ymddangosiad corfforol.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____